**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Crynodeb o Fil

# Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Mehefin 2015

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Y Gwasanaeth Ymchwil

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:C cynulliad.cymru/Ymchwil

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Ymchwil@Cynulliad.Cymru
Twitter: @SeneddYmchwil

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 15/1308
Rhif dogfen:15/029

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Crynodeb o Fil

# Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Mehefin 2015

Robin Wilkinson, Alys Thomas ac
Aled McKenzie

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

# Crynodeb

Fformatiwyd y pennawd crynodeb gan ddefnyddio 'Title Header' o'r bar offer. Ni fydd y penawdau sydd wedi eu fformatio yn y modd hwn yn cael eu cynnwys yn awtomatig yn y Tabl Cynnwys.

Ni ddylai'r Crynodeb fod yn hwy na thudalen o hyd.

Os na fydd crynodeb, gadewch yr adran hon fel y mae.

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad** ..... 1

**2. Cyd-destun Polisi** ..... 2

2.1. Effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth bresennol a'r angen am y Bil ..... 2

**3. Y Bil** ..... 4

3.1. Diwygio trefniadau cofrestru ..... 5
3.2. Atal difrod i henebion cofrestredig ..... 6
3.3. Cofrestr o barciau a gerddi hanesyddol ..... 6
3.4. Adeiladau rhestredig yng Nghymru (Rhan 3) ..... 6
3.5. Atal difrod i adeiladau rhestredig ..... 8
3.6. Panel Cynghori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru ..... 8
3.7. Diogelu asedau treftadaeth lleol ..... 9

**4. Ymatebion i'r Bil** ..... 11

# Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

## 1. Cyflwyniad

**Dyddiad cyflwyno:** 1 Mai 2015

**Yr Aelod sy'n gyfrifol:** Ken Skates AC, y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth.

**Pwyllgor y Cynulliad sy'n craffu ar y Bil yn ystod Cyfnod 1:** Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

**Dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno adroddiad Cyfnod 1:** 9 Hydref 2015.

## 2. Cyd-destun polisi

Yn ei *Rhaglen Lywodraethu*, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai Bil yr Amgylchedd Hanesyddol, gyda chefnogaeth datblygu polisi ac ymgysylltu â'r cyhoedd, yn ffordd allweddol o '[g]yfoethogi bywydau unigolion a chymunedau drwy ein diwylliant a'n treftadaeth'. Yn 2013, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ei chynigion ar gyfer deddfwriaeth a pholisi yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol. Cafodd yr ymgynghoriad hwn, *Dyfodol Ein Gorffennol*, 177 o ymatebion, a'r rheini o bob rhan o sector yr amgylchedd hanesyddol.

Lleisiwyd rhwystredigaeth yn rhai o'r ymatebion ynghylch nifer fach yr erlyniadau llwyddiannus am ddifrodi henebion cofrestredig yn anghyfreithlon yng Nghymru. O ganlyniad, yng ngwanwyn 2014, mewn ymgynghoriad ychwanegol a barodd chwe wythnos, gofynnwyd am farn ar gynnig i gyflwyno gwelliannau i *Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archeolegol 1979* a fyddai'n ei gwneud yn anos i berson a gyhuddir o'r fath ddifrod gynnig amddiffyniad anwybodaeth ynghylch statws neu leoliad yr heneb. Wedyn, dywedodd John Griffiths AC, y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon ar y pryd:

> Mae'r ymatebion i'r ddau ymgynghoriad wedi dylanwadu ar y cynigion sy'n gysylltiedig â Bil yr Amgylchedd Hanesyddol, a bydd hynny'n cyfrannu at dri phrif ddeilliant, sef:
>
> - ei gwneud yn bosibl inni ddiogelu adeiladau a henebion rhestredig yn fwy effeithiol;
> - sicrhau ein bod yn gallu gwella'r mecanweithiau ar gyfer rheoli'r amgylchedd hanesyddol mewn modd cynaliadwy; a
> - sicrhau bod mwy o dryloywder ac atebolrwydd wrth wneud penderfyniadau am yr amgylchedd hanesyddol.

Ym mis Medi 2014, penodwyd Ken Skates AC yn Ddirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, gyda'r amgylchedd hanesyddol yn rhan o'i bortffolio. Cyflwynwyd ***Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)*** yn y Cynulliad ar **1 Mai 2015**.

### *2.1. Effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth bresennol a'r angen am y Bil*

Yn eu hymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, dywedodd rhanddeiliaid, gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mai **prinder cyllid**, yn hytrach na phroblemau gyda'r gyfraith, oedd wrth wraidd nifer o'r problemau o ran rheoli treftadaeth Cymru ar hyn o bryd. Yn ôl yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, pe bai'r sector yn cael yr adnoddau priodol,

> The existing system would deliver greater real benefits if this resource was in place alongside good management, supplemented with good technical advice on the ground.

Yn adroddiad cryno Llywodraeth Cymru am yr ymatebion i ymgynghoriad 2013 nodir bod **yr ymgyngoreion yn pryderu'n benodol fod awdurdodau lleol eisoes yn defnyddio eu holl adnoddau i ymdopi â'u dyletswyddau craidd presennol,** a'u bod hefyd yn gorfod cadw at flaenoriaethau pwysicach sy'n ymwneud â materion cymdeithasol ac addysgol ac â chreu swyddi.

Yn ei ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, cyhuddodd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (RCAHMW) Lywodraeth Cymru o fod ag **absenoldeb meddwl radicalaidd neu arloesol** yn ei chynigion deddfwriaethol a'i pholisi ar gyfer y sector treftadaeth. Dywedodd:

> Many of the proposals are to be welcomed. However, overall we feel a generational opportunity has been missed.
> Opportunities have not been explored for more creative solutions, for example to the critical neglect of so many historic buildings at the hearts of our communities. This absence of radical or innovative thinking adds to a concern about the expectation in the document that the changes proposed will result in strong leadership over a comprehensive central programme for heritage.
> Many of the proposals require more resources at a time when they are decreasing.

Y brif ddeddfwriaeth ar gyfer diogelu henebion yng Nghymru yw *Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979*. O dan Ddeddf 1979, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chadw cofrestr o henebion ("y Gofrestr") sy'n bodloni meini prawf penodol ac sydd, yn eu tyb hwy, o bwysigrwydd cenedlaethol. Wedi eu cofrestri felly, mae henebion cofrestredig yn ddarostyngedig i gyfundrefn gydsynio, sy'n golygu y bydd yn rhaid i berchnogion gael caniatâd ffurfiol ar gyfer gwaith penodol.

Fodd bynnag, nid yw Deddf 1979 yn galluogi Gweinidogion Cymru i stopio gwaith anawdurdodedig ar heneb gofrestredig ar unwaith—gwaharddeb llys yw'r unig fecanwaith sydd ar gael. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, sut bynnag, fod Gweinidogion Cymru'n gallu defnyddio cysylltiadau anffurfiol i roi stop ar waith anawdurdodedig, a sicrhau'r atgyweiriadau angenrheidiol, "yn bron pob un" o'r 119 o achosion o ddifrod i henebion cofrestredig a gofnodwyd yng Nghymru rhwng 2006 a 2012.

## 3. Y Bil

Nod y rhan fwyaf o'r Bil yw ceisio diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol o ran rheoli'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Dwy Ddeddf y DU yw'r ddeddfwriaeth bresennol:

Mae ***Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archeolegol 1979*** ('Deddf 1979') (sy'n berthnasol i Gymru, Lloegr a'r Alban) yn darparu y gall Gweinidogion Cymru ddynodi henebion cofrestredig o bwysigrwydd cenedlaethol i'w diogelu. Mae hefyd yn ei gwneud difrodi heneb gofrestredig, neu wneud gwaith i heneb gofrestredig heb ganiatâd ffurfiol Gweinidogion Cymru, yn drosedd. Ar hyn o bryd, mae dros **4,000 o henebion cofrestredig** yng Nghymru.

Mae ***Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990*** ('Deddf 1990') (sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr) yn rhoi grymoedd i Weinidogion Cymru ddynodi adeiladau rhestredig o ddiddordeb archeolegol neu hanesyddol arbennig. Mae hefyd yn nodi gweithdrefn gydsynio i ganiatáu gwaith i adeiladau rhestredig, yn sefydlu troseddau o ran gwneud gwaith nas awdurdodwyd, ac yn gosod mecanweithiau ar gyfer camau gorfodi. Yn ogystal, mae Deddf 1990 yn rhoi cyfrifoldeb ar awdurdodau cynllunio lleol i ddynodi ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig yn 'ardaloedd cadwraeth' a'u hadolygu yn rheolaidd. Mae bron **30,000 o adeiladau wedi'u rhestru** yng Nghymru ac mae awdurdodau cynllunio lleol wedi dynodi **523 o ardaloedd cadwraeth**.

Hefyd, rhoddir ystyriaeth yn ystod y broses gynllunio, yn unol â pholisi a chanllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru, i elfennau eraill o'r amgylchedd hanesyddol nad ydynt yn cael eu diogelu'n statudol yn benodol—er enghraifft, parciau a gerddi cofrestredig hanesyddol.

Dywedodd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth blaenorol (Huw Lewis AC) wrth y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, yn ystod ei ymchwiliad i Bolisi Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru yn 2012:

> **The legislation that currently applies to the Welsh historic environment, we see that it is a bit of a hotchpotch**, a piecemeal evolution of things that have happened on an England-and-Wales basis very often, over 30 years or more. To my mind, **that is where the streamlining comes in for sure**. We have an opportunity now with our primary legislative powers to put together a package of legislative support for the historic environment that suits Wales specifically.

Amddiffynnodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth y penderfyniad i ddiwygio'r ddeddfwriaeth flaenorol yn hytrach na drafftio Bil annibynnol newydd mewn dadl yn y Cyfarfod Llawn ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno ym mis Mai 2015. Dywedodd:

> Ystyriasom Fil cydgrynhoi a fyddai'n unigryw i Gymru, ond roeddem o'r farn, o weithio o fewn amserlen ddeddfwriaethol y pedwerydd Cynulliad gyda'r adnoddau a oedd ar gael, nad oedd Bil cydgrynhoi o'r fath yn ymarferol. Nid oedd y grŵp cyfeirio allanol a sefydlwyd i edrych ar yr hyn a fyddai'n addas i Gymru ac yn gwasanaethu Cymru orau yn teimlo bod hynny'n arbennig o ddeniadol ar hyn o bryd.

## *3.1. Diwygio trefniadau cofrestru*

Nod **Rhan 2** o'r Bil yw diwygio Deddf 1979 yn y ffyrdd allweddol canlynol:

- Cyflwyno gofyniad i Weinidogion Cymru **ymgynghori** cyn gwneud newidiadau penodol i'r Gofrestr. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod Gweinidogion Cymru ar hyn o bryd yn ymgynghori yn "rheolaidd" â pherchnogion ac yn hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol a chyrff cyhoeddus eraill cyn penderfynu a ddylid cofrestru ai peidio, oni bai y byddai gwneud hynny'n debygol o arwain at achosi difrod i'r heneb (adran 3);
- Rhoi heneb o dan **warchodaeth statudol interim** wrth i Weinidogion Cymru benderfynu pa un ai ei chynnwys yn y Gofrestr ai gwneud diwygiadau i'w chofnod yn y Gofrestr. Mae'r darpariaethau'n darparu i ddigolledia gael ei dalu i'r perchennog os yw'r warchodaeth interim hon yn arwain at achosion o golled neu ddifrod uniongyrchol ac nid yw'r heneb yn cael ei dynodi wedyn. (adran 3);
- Rhoi i berchnogion yr hawl i wneud cais i Weinidogion Cymru am **adolygiad** o benderfyniad i gynnwys heneb yn y Gofrestr, neu i wneud diwygiadau i'w chofnod yn y Gofrestr (adran 3);
- Galluogi Gweinidogion Cymru i newid y drefn ar gyfer cydsyniad heneb gofrestredig i symleiddio'r broses (adran 5) ac o ran digolledia lle y gwrthodir cydsyniad o'r fath (adran 10);
- **Estyn y diffiniad o "heneb"** i alluogi Gweinidogion Cymru i gofrestru "unrhyw beth, neu grŵp o bethau, sy'n dystiolaeth o weithgaredd dynol yn y gorffennol". Mae'r Memorandwm Esboniadol yn amcangyfrif y bydd llai na 30 o safleoedd newydd yn gymwys ar gyfer eu cofrestru o dan y diffiniad estynedig hwn.  Bydd yn rhaid o hyd i safleoedd fod o bwysigrwydd cenedlaethol a bodloni'r meini prawf a gyhoeddwyd (adran 22).
- Newid yr amgylchiadau lle mae heneb sydd yn y môr yn cael ei thrin fel pe bai hi yng Nghymru, gan wneud hyn yn unol â'r diffiniad o "Gymru" a geir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 (adran 20).

- Galluogi hysbysiadau a dogfennau eraill a gyflwynwyd o dan Ddeddf 1979 i gael eu cyflwyno yn electronig (adran 22).

### *3.2. Atal difrod i henebion cofrestredig*

- Er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i gymryd camau (gan gynnwys trwy gyhoeddi **hysbysiad gorfodi** neu **hysbysiad stop dros dro** ) lle y mae rhai mathau o waith yn cael eu gwneud ar heneb gofrestredig (adrannau 12-14);
- **Cyfyngu ar yr amddiffyniad anwybodaeth** ar gyfer y rhai sy'n difrodi heneb neu'n gwneud gwaith anawdurdodedig arni (adrannau 15-17).
- Galluogi Gweinidogion Cymru i **gael mynediad i dir** y credir ei fod yn cynnwys henebion lle y credir bod heneb mewn perygl o gael ei difrodi neu ei dinistrio, **heb ganiatâd y perchennog** na neb arall efallai y bydd angen ei ganiatâd. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai "dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caiff y pŵer newydd hwn ei ddefnyddio" (adran 19).
- Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro bod y problemau o ran cael y cyrff perthnasol i gydsynio yn cael eu cymhlethu gan ansicrwydd ynghylch perchnogaeth heneb. Dywed, "er bo pridiant tir yn cael ei roi ar heneb pan gaiff ei chofrestru, nid yw’n ofynnol rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru pan gaiff heneb ei werthu neu ei drosglwyddo". Nid yw'r Bil yn cyflwyno'r fath ofyniad.

### *3.3. Cofrestr o barciau a gerddi hanesyddol*

Mae'r Bil yn rhoi dyletswydd statudol newydd ar Weinidogion Cymru i lunio, cynnal a chyhoeddi **cofrestr o barciau a gerddi** o ddiddordeb hanesyddol arbennig. Cyhoeddwyd cofrestr anstatudol mewn cyfres o gyfrolau rhwng 1994 a 2007. Datblygwyd y gofrestr i helpu grwpiau sy’n gysylltiedig â pharciau a gerddi hanesyddol, gan gynnwys perchnogion, Awdurdodau Cynllunio Lleol, datblygwyr a chyrff statudol, gyda’u cadwraeth. Yn flaenorol, ni châi safleoedd eu cynnwys ar y gofrestr heb ganiatâd y perchennog. Nod y Bil yw rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r gofrestr heb orfod cael cytundeb perchnogion (adran 18).

### *3.4. Adeiladau rhestredig yng Nghymru (Rhan 3)*

Y brif ddeddfwriaeth ar gyfer diogelu adeiladau rhestredig yng Nghymru yw *Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990*. O dan Ddeddf 1990, mae dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i lunio rhestr o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru restru adeilad os yw'n bodloni'r meini prawf cyhoeddedig. Wedi eu cofrestri felly, mae adeiladau rhestredig yn ddarostyngedig i gyfundrefn gydsynio, sy'n golygu y bydd yn rhaid i berchnogion gael caniatâd ffurfiol ar gyfer gwaith penodol.

Fodd bynnag, os bydd awdurdod cynllunio lleol o'r farn bod adeilad sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, nad yw wedi ei restru, mewn perygl o gael ei newid neu ei ddymchwel, gall roi hysbysiad diogelu adeilad (o dan Ddeddf 1990) ar y perchennog a'r meddiannydd. Mae hysbysiad o'r fath yn aros mewn grym am 6 mis. Os bydd Gweinidogion Cymru yn rhestru'r adeilad, neu'n penderfynu peidio â'i restri, yn ystod y cyfnod hwn o 6 mis, mae'r hysbysiad yn darfod.

Nod **Rhan 3** o'r Bil yw diwygio Deddf 1990 yn y ffyrdd allweddol canlynol:

- Cyflwyno dyletswydd ar Weinidogion Cymru i **ymgynghori** wrth benderfynu a ddylid rhestru adeilad. Dywed y Memorandwm Esboniadol fod Gweinidogion Cymru ar hyn o bryd yn ymgynghori â pherchnogion a meddianwyr, awdurdodau cynllunio lleol a chyrff cyhoeddus eraill wrth ystyried rhestru adeilad, oni bai y byddai gwneud hynny yn debygol o fod yn niweidiol i'r adeilad (adran 24).
- Rhoi adeilad o dan **warchodaeth statudol interim** wrth i Weinidogion Cymru benderfynu ynglŷn â rhestru. Mae'r darpariaethau'n darparu i ddigollediad gael ei dalu i'r perchennog neu'r meddiannydd os yw'r warchodaeth interim hon yn arwain at achosion o golled neu ddifrod uniongyrchol ac nid yw'r heneb yn cael ei dynodi wedyn (adran 24).
- Cyflwyno gofyniad i Weinidogion Cymru **adolygu** penderfyniad i ddiwygio'r rhestr o adeiladau pan fydd perchennog neu feddiannydd yn gofyn iddynt wneud hynny, a rhoi i Weinidogion Cymru'r pŵer i wneud rheoliadau sy'n nodi ar ba sail y gellir cynnal adolygiad (adran 24).
- Addasu'r trefniadau rhestru dros dro a gychwynnir drwy gyflwyno hysbysiad diogelu adeilad yng ngoleuni'r newidiadau i'r broses restru o ganlyniad i'r Bil hwn (adran 25);
- Galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno "tystysgrif imiwnedd rhag rhestru" ar unrhyw adeg. Mae'r dystysgrif hon yn atal Gweinidogion Cymru rhag rhestru adeilad am bum mlynedd, ac yn atal awdurdod cynllunio lleol rhag cyflwyno hysbysiad diogelu adeilad ar adeilad ar gyfer yr un cyfnod. Ar hyn o bryd, dim ond pan fydd cais wedi cael ei wneud am ganiatâd cynllunio, neu pan fydd caniatâd wedi'i roi, y gellir gwneud cais am y dystysgrif hon (adran 27).
- Galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno dogfennau penodol sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig yn electronig (adran 31).

- Darparu pan fo Gweinidogion Cymru yn penodi swyddog i benderfynu ar apêl, bydd swyddogaethau'r swyddog i'w trin fel swyddogaethau Llywodraeth Cymru at ddibenion *Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005*. Mae hyn yn galluogi'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus i ymchwilio i unrhyw honiadau o gamweinyddu (adran 32).

## *3.5. Atal difrod i adeiladau rhestredig*

Galluogi awdurdodau cynllunio lleol i gyflwyno **hysbysiadau stop dros dro** a fyddai'n golygu bod yn rhaid rhoi'r gorau ar unwaith i waith nas awdurdodwyd i adeilad rhestredig. Byddai hysbysiad stop dros dro yn para 28 diwrnod er mwyn ceisio datrys y sefyllfa. Mae pwerau presennol sydd ar gael i awdurdodau cynllunio lleol yn eu galluogi i gyflwyno hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig, sy'n cymryd 28 diwrnod i ddod yn effeithiol (adran 29).

**Estyn cwmpas y gwaith brys** y caiff Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol ei wneud i ddiogelu adeilad rhestredig. Ar hyn o bryd, ni ellir ond gwneud gwaith brys er mwyn diogelu adeiladau nad ydynt wedi eu meddiannu neu rannau o adeiladau sydd wedi eu meddiannu nad ydynt yn cael eu defnyddio. Byddai'r Bil yn caniatáu i waith brys gael ei wneud ar unrhyw adeilad rhestredig ar yr amod na fyddai hynny yn amharu'n afresymol â'r defnydd preswyl a wneir ohono.

Mae'r Bil yn darparu i'r treuliau yr aed iddynt wrth wneud y gwaith hwn gael eu talu trwy bridiant tir a thrwy werthu a lesio'r eiddo. Mewn achosion eithriadol, gall hyn olygu gwerthu'r adeilad, heb ganiatâd y perchennog, er mwyn adennill y gost.

Mae'r Bil hefyd yn darparu hawl i apelio i Weinidogion Cymru ynghylch y treuliau y mae Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol yn ceisio eu hadennill mewn perthynas â'r gwaith hwn (adran 30).

## *3.6. Panel Cynghori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru*

Mae'r Bil yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i **sefydlu Panel Cynghori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru** (adrannau 37-38). Diben y Panel yw rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ar faterion sy'n ymwneud â llunio, datblygu a gweithredu polisi a strategaeth mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Mae'r manylion am y Panel yn y Bil yn cynnwys y canlynol:

- Rhaid iddo baratoi blaenraglen waith dair blynedd yn nodi'r meysydd y mae'n bwriadu rhoi cyngor i Weinidogion Cymru yn eu cylch yn ystod y cyfnod hwnnw;
- Rhaid na fydd gan y Panel fwy na 15 aelod.

Ni fu corff erioed a chanddo aelodau wedi'u penodi i gynghori Gweinidogion Cymru ar bolisi amgylchedd hanesyddol. Roedd Bwrdd Cynghorol Henebion Cymru a'r Cyngor Cynghorol Adeiladau Hanesyddol yn rhoi cyngor ar rai agweddau ar waith achos, ond daeth y rhain i ben yn 2010. Ar hyn o bryd, y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol sydd gan Lywodraeth Cymru, a sefydlwyd hwnnw yn 2004. Nid oes gan y Grŵp hwn aelodau wedi'u penodi, eithr mae'n fforwm o sefydliadau sydd â buddiant yn yr amgylchedd hanesyddol, ac mae pob un yn anfon uwch gynrychiolydd .

Er bod y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn 2013 o blaid creu panel cynghori statudol, roedd rhai yn pryderu am yr arian a fyddai'n cael ei wario (£261,000 dros bum mlynedd) at y diben hwn. Yn ôl adroddiad cryno Llywodraeth Cymru o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, y prif bryderon oedd y byddai panel yn defnyddio llawer o adnoddau, a byddai'n fiwrocrataidd.

### *3.7. Diogelu asedau treftadaeth lleol*

Yn ogystal â'r broses restru genedlaethol, caiff awdurdodau lleol baratoi rhestr leol o adeiladau yr ystyrir eu bod o werth i'r ardal o ran eu hansawdd pensaernïol neu hanesyddol, er nad ydynt yn gymwys ar gyfer rhestru statudol. Mae gan y rhestrau hyn fel arfer rhyw gysylltiad ag ystyriaethau cynllunio, ond nid yw bod ar y rhestr yn golygu fel rheol fod yr adeilad dan sylw yn ddarostyngedig i unrhyw reolaethau yn fwy nag unrhyw adeilad arall (oni bai ei fod mewn ardal gadwraeth).

Dywedodd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth blaenorol (Huw Lewis AC) wrth y Pwyllgor hwn yn ystod ei ymchwiliad i Bolisi Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru yn 2012:

> I am also aware that there are a number of current tensions. One example is how we manage those elements of the historic environment of Wales that are not provided with statutory protection. For example, some historic buildings might be greatly valued by local communities but do not meet the strict criteria for statutory designation and consequently are more vulnerable to demolition.

Ym mis Chwefror 2014, galwodd Aled Roberts AC ar Lywodraeth Cymru i'w gwneud yn ofyniad statudol ar awdurdodau lleol i lunio rhestr leol. Gwrthwynebodd y Gweinidog Ddiwylliant a Chwaraeon ar y pryd hyn, gan ddweud:

> Our consultations with stakeholders confirm that there is an appetite in local communities for these matters, but we have to take into account the financial constraints that we face and the difficulties that they cause for local planning authorities.

Yn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno Mai 2015, dywedodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth:

> [C]redaf fod yn rhaid inni wahaniaethu rhwng yr hyn yr ystyrir ei fod 'o ddiddordeb lleol' a'r hyn a ddynodir yn adeilad rhestredig. Credaf y bydd cofnodion yr amgylchedd hanesyddol yn

> helpu i gofnodi asedau o ddiddordeb lleol nad ydynt o reidrwydd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer rhestru, ac, wrth wneud hynny, ac wrth ddilyn canllawiau polisi ar gynllunio, byddwn yn gobeithio y caiff asedau o ddiddordeb lleol eu hamddiffyn yn well. Yn wir, lle y mae rhestrau lleol eisoes wedi'u llunio, dylid cyfeirio at y rhestrau lleol hynny fel rhan o'r broses gynllunio.

Yn ei ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn 2013, nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

> The identification of local lists is supported however there are real concerns over the current and future capacity within local authorities to become involved in this.

Ynghyd â'r Bil, mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ystod o bolisïau a chyfarwyddyd newydd ar gyfer sector yr amgylchedd hanesyddol (ar gael ar ffurf ddrafft ar wefan Cadw **yma**). Mae'r rhain yn cynnwys y ddogfen *Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig*.

## 4. Ymatebion i'r Bil

Yn ei ddatganiad deddfwriaethol i'r Cyfarfod Llawn ar y Bil, dywedodd Ken Skates AC, y Dirprwy Weinidog:

> Drwy ddiogelu ein hamgylchedd hanesyddol a hwyluso ffyrdd cynaliadwy o'i reoli, bydd Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn helpu'r amgylchedd hanesyddol i barhau i gyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy a neilltuol, lle y mae cartrefi, swyddi a gofynion eraill bywyd modern, sy'n hanfodol i ffyniant, iechyd a hapusrwydd, ar gael i ddinasyddion Cymru. Mae iddo'r un nod lefel uchel â Bil Cynllunio (Cymru) Llywodraeth Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a basiwyd yn ddiweddar.[1]

Roedd Suzy Davies AC, llefarydd y Ceidwadwyr a chadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth, yn falch o "amcanion a dibenion" y Bil, ond roedd ganddi lawer o amheuon ynghylch rhai meysydd, gan gynnwys y canlynol:

> O ran yr imiwnedd rhag rhestru, gallaf weld pam y gallai hwn fod yn arf i atal esgeuluso adeiladau'n fwriadol, ac rwyf yn credu bod hyn yn werthfawr, ond mae'n codi cwestiwn ynghylch beth, yn ôl y gyfraith, fyddai ystyr defnydd newydd cynaliadwy. Felly, sut ydych chi'n rhagweld y bydd y Bil yn atal awdurdodau cynllunio rhag gwrthod ceisiadau dychmygus gyda golwg ar ganiatáu cais wedi hynny i ddymchwel yr adeilad hwnnw ac adeiladu rhywbeth arall yn ei le?[2]

Diolchodd Bethan Jenkins AC o Blaid Cymru i'r Dirprwy Weinidog am ei ddatganiad, ond gofynnodd am eglurhad ar rai o'r materion a godwyd, gan gynnwys y canlynol:

> O ran paneli cynghori rydym ninnau, fel Plaid Cymru, am weld y penodiadau'n cael eu gwneud gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel y gallwn sicrhau eu bod yn gwbl annibynnol. Fel y mae Aelod arall wedi'i ddangos yma heddiw, gall fod yn anodd iawn cael gafael ar y paneli hynny, a hoffem wneud yn siŵr bod arbenigedd ar draws y sector treftadaeth, ac nad yw wedi'i orlwytho â sectorau penodol a all fod â mwy o ddylanwad gyda chi fel Gweinidog.[3]

Nododd Peter Black AC, llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol, ei bod yn werth i'r grŵp gefnogi rhannau o'r Bil, ond fe adleisiodd yntau rai o'r pryderon a godasid eisoes, gan ddatgan:

> Fodd bynnag, mae gennyf finnau, fel Bethan Jenkins, bryderon ynglŷn â'r warchodaeth y gellir ei rhoi i adeiladau o ddiddordeb ac arwyddocâd lleol, megis Customs House ym Mhort Talbot, megis tafarn y Vulcan yng Nghaerdydd, er enghraifft. Roedd Cadw o'r farn nad oedd y rhain yn ddigon teilwng i gael eu rhestru dan system restru genedlaethol, ond maent, yn fy marn i ac ym marn pobl eraill, yn ddigon teilwng i gael eu diogelu ar sail leol. Mae darpariaethau yma o ran hysbysiadau atal ac o ran gorchmynion cadw dros dro, rwyf yn meddwl, i alluogi awdurdod lleol i ymyrryd, ond mae'n ymddangos i mi mai materion dros dro yw'r rhain a bod angen iddynt arwain at restru'n fwy parhaol.[4]

---

[1] Cofnod y Trafodion, 5 Mai 2015 [fel ar 3 Mehefin 2015]
[2] Ibid.
[3] Ibid.
[4] Ibid.

Cafodd y Bil groeso gan Gyngor Archaeoleg Prydain:

> The CBA has been heavily involved with the creation of the Bill as a member of the External Reference Group and Historic Environment Group. It complements goals set out in the Planning Bill and the Well-being of Future Generations Act. It will also be complemented by new policy, advice and guidance that has been developed to support the legislation.
>
> Dywedodd Dr Mike Heyworth MBE, cyfarwyddwr y Cyngor, "The CBA welcomes the introduction of this Bill and the significant measures that are proposed. Of particular significance is the plan to put Historic Environment Records on a statutory footing which is something that we have been pressing for across the UK. We are pleased to have been working with colleagues in Wales to help shape the Bill and hope that it will achieve Royal Assent in the coming year."[5]

Nododd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru:

> Mae ein hamgylchedd hanesyddol, sy'n cynnwys henebion hynafol ac adeiladau hanesyddol yn ogystal â'r tirweddau o'u cwmpas, yn siapio ein hunaniaeth genedlaethol. Hefyd, mae'n cyfrannu'n helaeth at ein heconomi - yn wir, mae'n gyfrifol am un rhan o bump o wariant twristiaeth yng Nghymru.
>
> Fodd bynnag, mae ein treftadaeth unigryw yn beth bregus. Mae rhai o'n hadeiladau rhestredig sydd o bwysigrwydd cenedlaethol yn dirywio ac mae llawer wedi'u hesgeuluso. Mae rhai henebion wedi'u difrodi ar bwrpas hyd yn oed; gan gynnwys difrod i rannau o Glawdd Offa, sy'n 1,200 mlwydd oed, a difrod i fryngaerau sydd wedi bodoli ers dros 2,000 o flynyddoedd.
>
> Rhwng 2006 a 2012, cofnodwyd 119 achos o ddifrod i henebion cofrestredig - a dim ond un erlyniad llwyddiannus a gafwyd yn y cyfnod hwnnw.
>
> Un o amcanion Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), felly, yw ei gwneud yn anoddach i unigolion ddefnyddio amddiffyniad o anwybodaeth, hynny yw dweud nad oeddent yn ymwybodol o statws neu leoliad heneb, i osgoi cael eu herlyn am ddifrod troseddol o'r fath.
>
> Bydd y Bil hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gymryd camau effeithiol ar unwaith os yw heneb gofrestredig dan fygythiad, i orfodi perchnogion sydd wedi difrodi henebion i'w hatgyweirio.
>
> Bydd y Bil yn helpu i atal rhai o'n hadeiladau hanesyddol gorau rhag dirywio drwy ganiatáu i awdurdodau lleol weithredu a rhoi ffyrdd newydd iddynt i adennill costau gwaith brys y mae'n rhaid ei wneud.[6]

---

[5] Cyngor Archeoleg Prydain, New Bill for Protection of historic environment in Wales introduced to National Assembly, Datganiad i'r Wasg, 5 Mai 2015 [fel ar 3 Mehefin 2015]

[6] CGGC, Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), Datganiad i'r Wasg, Mai 6, 2015 [fel ar 3 Mehefin 2015]